# Cyngor Caerdydd - Polisi Diogelu ar gyfer Contractwyr (2021)

## Cyflwyniad

Diogelu pobl sy'n agored i niwed yw un o brif flaenoriaethau corfforaethol Cyngor Caerdydd (y 'Cyngor'). Mae *Polisi Diogelu Corfforaethol* y Cyngor yn ei gwneud yn glir **bod diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed yn gyfrifoldeb i bawb.**

Fel Contractwr sy'n darparu nwyddau, gwasanaethau neu waith ar ran y Cyngor, mae'n ofynnol i chi chwarae eich rôl wrth sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiadau diogelu.

## Amcanion

Mae'r Polisi hwn yn rhoi arweiniad i Gontractwyr fel eu bod yn deall eu rôl wrth gefnogi'r Cyngor i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio. Mae'n ymwneud â sicrhau bod gweithlu contractwyr y Cyngor yn gwybod:

- Beth yw Diogelu;
- Sut mae cam-drin/niwed yn edrych, a;
- Beth i'w wneud os ydynt yn credu bod rhywun yn cael ei gam-drin neu mewn perygl o gael ei gam-drin.

Dylid defnyddio'r Polisi hwn ar y cyd ag unrhyw un o bolisïau diogelu'r contractwyr eu hunain, gweithdrefnau ynghyd â chodau ymddygiad perthnasol ar gyfer y sefydliad neu eu cyrff proffesiynol/rheoleiddio. Dylai'r holl weithwyr perthnasol hefyd ymgymryd â hyfforddiant diogelu a nodwyd gan gontractwr fel sefydliad a/neu sy'n ofynnol gan gyrff perthnasol.

## I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?

Mae pob contractwr, is-gontractwr neu sefydliad arall a ariennir gan y Cyngor yn gyfrifol am drefnu gwiriadau drwy'r broses recriwtio ddiogel ac am sicrhau bod eu 'gweithlu' yn cydymffurfio â threfniadau rheoleiddio a chytundebol sy'n ymwneud â'u cyfrifoldebau diogelu. Mae pob contractwr, is-gontractwr a sefydliad arall yn gyfrifol am hysbysu Rheolwyr perthnasol o fewn y Cyngor am unrhyw bryderon diogelu sydd ganddynt.

At ddibenion y Polisi hwn diffinnir 'gweithlu' fel y rhai sy'n cael eu cynnwys gan unrhyw Gontractwr a ariennir gan y Cyngor, gan gynnwys gweithwyr parhaol a dros dro, myfyrwyr, gwirfoddolwyr, gweithwyr a gyflogir gan asiantaethau cyflogaeth, is-gontractwyr ac ymgynghorwyr.

Disgwylir i'r holl 'weithlu' sy'n ymgymryd â dyletswyddau ar ran Contractwr sy'n dod i gysylltiad â phlant neu oedolion sydd mewn perygl ddeall eu cyfrifoldeb a, lle bo angen, cymryd camau i ddiogelu a hyrwyddo lles pobl sy'n agored i niwed.

## Diffiniadau o Blant ac Oedolion mewn Perygl

**Plant a Phobl Ifanc mewn Perygl -** yn cael ei ddiffinio yn ôl y gyfraith fel unrhyw un nad yw eto wedi cyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed. Mae estyniad i'r oedran hwn yn bodoli o ran rhywfaint o ddarpariaeth statudol ar gyfer plant sydd wedi bod yng ngofal yr Awdurdod Lleol. Mae A.130 (4) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio "plentyn mewn perygl" fel plentyn sydd yn:

- yn cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, a

- y mae ganddo anghenion am ofal a chymorth (p’un a yw’r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un neu rai o’r anghenion hynny ai peidio).

**Oedolyn mewn Perygl**— yn cael ei ddiffinio fel unrhyw un sy'n 18 oed neu'n hŷn y mae ei allu i amddiffyn ei hun yn gyfyngedig. Gallai hyn fod oherwydd oedran ac eiddilwch, salwch meddwl neu gorfforol, colled synhwyraidd neu anabledd corfforol neu ddysgu. Gallai fod yn rhywun sy'n gallu ymdopi fel arfer ond nad yw'n gallu gwneud hynny dros dro oherwydd damwain neu salwch. “Oedolyn mewn perygl” yw oedolyn sydd:-

- yn wynebu neu mewn perygl o wynebu cael ei gam-drin neu esgeuluso;
- y mae ganddo anghenion gofal a chymorth (p’un a yw’r Cyngor yn diwallu unrhyw rai o’r anghenion hynny ai peidio); ac
- nad yw’n gallu, o ganlyniad i’r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael ei gam-drin neu esgeuluso neu’r perygl o gael ei gam-drin neu esgeuluso.

## Beth ydym ni'n ei olygu wrth ddiogelu?

Mae gan bawb yr hawl i fod yn ddiogel waeth pwy ydyn nhw na beth yw eu hamgylchiadau. Mae diogelu'n ymwneud ag amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o niwed. Mae gan holl gontractwyr y Cyngor gyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn gwneud popeth o fewn eu gallu i amddiffyn yr aelodau mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas; mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.

Mae diogelu’n cynnwys:

- Atal camdriniaeth, esgeulustod a niwed
- Cydnabod y gwahanol fathau o gamdriniaeth, esgeulustod a niwed
- Rhoi gwybod am gam-drin, esgeulustod a niwed
- Bod â threfniadau ar waith o fewn sefydliadau i sicrhau bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu er enghraifft – polisïau GDG, codau ymddygiad.

## Sut mae cam-drin yn edrych?

Gall cam-drin fod yn ganlyniad i weithred neu fethiant i weithredu mewn modd priodol. Gall gynnwys un weithred neu weithredoedd mynych a gall ddigwydd ar draws pob grŵp cymdeithasol. Gellir disgrifio camdriniaeth ac esgeulustod yn y pum categori canlynol: Rhowch

**Cam-drin Corfforol:**

- Gall hyn gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi, sgaldio, boddi neu fygu neu achosi niwed corfforol i blentyn neu oedolyn.

**Cam-drin Rhywiol**

Gorfodi neu ddenu plentyn neu oedolyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, waeth p’un a yw’n ymwybodol ai peidio o’r hyn sy’n digwydd. Gall hyn gynnwys:

- cyffwrdd corfforol, gan gynnwys gweithrediadau treiddio neu heb dreiddio;
- dim cyswllt corfforol, megis cynnwys plentyn neu oedolyn yn edrych ar neu yn rhan o gynhyrchu deunydd pornograffig neu wylio gweithgareddau rhywiol; neu
- annog oedolion neu blant i ymddwyn yn rhywiol mewn ffyrdd sy’n rhywiol amhriodol.

**Esgeulustod**

- Esgeulustod yw peidio ag ateb anghenion sylfaenol corfforol a/neu seicolegol plentyn neu oedolyn, sy’n debygol o arwain at niweidio ei iechyd neu ei ddatblygiad yn ddifrifol.
- Gall hyn gynnwys rhiant, aelod y teulu neu ofalwr yn peidio â rhoi bwyd, dillad neu loches digonol, peidio â diogelu plentyn neu oedolyn rhag niwed corfforol neu berygl neu beidio â sicrhau y caiff ofal neu driniaeth ddiogel.

- Gall hefyd gynnwys esgeuluso neu beidio ag ymateb i anghenion emosiynol plentyn neu oedolyn.

**Cam-drin Emosiynol**

- Trin plentyn neu oedolyn yn wael yn emosiynol, nes achosi effaith negyddol ddifrifol a pharhaus ar ei ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol.
- Gall hyn gynnwys dweud wrth y plentyn neu'r oedolyn ei fod yn ddiwerth neu nad oes unrhyw un yn ei garu, ei fod yn annigonol neu na chaiff ei werthfawrogi onid yw'n ateb anghenion rhywun arall.
- Gall gynnwys codi ofn ar blant neu oedolion neu wneud iddynt deimlo mewn perygl, er enghraifft drwy fod yn dyst i gam-drin domestig yn y cartref neu gael eu bwlio, neu drwy ecsploetiaeth neu lygredigaeth.

**Cam-drin Ariannol**

- Dwyn arian neu eiddo;
- Twyllo ariannol e.e. cynllwynion ariannol
- Cael ei roi dan bwysau i dalu am bethau er budd rhywun arall
- Defnyddio arian rhywun arall fel arian ei hun.
- Plant yn ennill arian trwy ddigwyddiadau adloniant a'r arian hwnnw ddim yn mynd i ymddiriedolaeth.
- Mae ffurfiau eraill ar gam-drin, megis bwlio, priodas orfodol, Anffurfio Organau Rhywiol Merched, caethwasiaeth fodern, camfanteisio rhywiol a radicaleiddio

Gall cam-drin ddigwydd mewn unrhyw berthynas – personol, proffesiynol neu sefydliadol. Gallai camdriniwr fod yn aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog. Gallai fod yn rhywun sy'n cael ei dalu i ddarparu gofal neu wasanaethau proffesiynol eraill, gweithiwr iechyd neu rywun sy'n gweithio fel gwirfoddolwr. Mae yna hefyd bobl sy'n cyfeillio oedolion sy'n agored i niwed ac yn ennill eu hymddiriedaeth er mwyn eu hecsbloetio neu eu cam-drin. Mewn lleoliad sefydliadol, fel cartref gofal neu wasanaeth dydd, gallai'r cam-drin fod gan rywun sy'n gweithio yno neu rywun arall sy'n byw yn y gwasanaeth neu'n ei ddefnyddio.

## Rolau a chyfrifoldebau contractwyr

Nid cyfrifoldeb y Contractwr yw penderfynu a yw cam-drin/niwed yn digwydd, fodd bynnag, cyfrifoldeb y Contractwr yw trosglwyddo pryderon a godwyd gan y gweithlu. Mae angen i gontractwyr sicrhau bod eu gweithlu'n ymwybodol o'r mathau o gam-drin.

Rhaid i gontractwyr godi unrhyw bryder neu honiad, yn ddi-oed yn unol â'r Polisi hwn. Ni ddylid anwybyddu pryderon a rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor yn ddi-oed. Mae arwyddion o gamdriniaeth neu esgeulustod yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- anafiadau anesboniadwy;
- bod yn or-swil/anghymdeithasol;
- arwyddion o ofn neu ofid;
- eiddo personol ar goll;
- amodau byw ac ymddangosiad gwael.

Os ydych chi'n credu bod plentyn neu oedolyn mewn perygl uniongyrchol o niwed rhaid i chi **ffonio'r Heddlu ar 999**. Ni ddylech byth dybio y bydd rhywun arall yn rhoi gwybod am y pryderon ac os cytunir y bydd rhywun arall yn rhoi gwybod am y pryderon, eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr eu bod wedi gwneud hyn.

Cyfrifoldeb Contractwyr yw sicrhau bod eu gweithlu'n ymgymryd â'u dyletswyddau mewn modd sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles plant ac oedolion. Rhaid i'r gweithlu ymddwyn mewn ffordd sy'n eu

diogelu rhag honiadau ffug o gam-drin cyn belled ag y bo modd ac yn unol â'r Polisi hwn, Cod Ymddygiad Diogelu'r Cyngor ond cyfrifoldeb y Contractwr yw hyfforddiant a gwybodaeth ychwanegol.

### Sut i godi pryderon neu roi gwybod am honiadau o gam-drin

Gall person weld neu glywed rhywbeth sy'n peri iddo fod â phryder neu gall rhywun ddweud wrth weithiwr ei fod yn cael ei gam-drin yn ôl yr honiadau. **Mae gan y Contractwr gyfrifoldeb i roi'r wybodaeth ganlynol i'w weithlu fel bod ganddynt wybodaeth sylfaenol am sut i ymateb ac â phwy i gysylltu**.

Os yw plentyn, person ifanc neu oedolyn yn honni ei fod yn cael ei gam-drin, dylai Contractwyr:

- ei sicrhau yr oedd yn iawn dweud wrthych;
- ddim gofyn cwestiynau arweiniol;
- cyn gynted ag y bo modd ar ôl cael gwybod gwneud cofnod ysgrifenedig o'r hyn a ddywedwyd yn eu geiriau eu hunain
- Peidiwch ag addo i blentyn, person ifanc neu oedolyn y bydd rhywbeth y maent wedi'i ddweud neu ei wneud yn cael ei gadw'n gyfrinachol.

**Plant**
Os ydych yn credu bod plentyn mewn perygl, nad yw'n cael gofal cywir neu os oes gennych bryderon ynghylch ei les, cysylltwch â ni ar: **029 2053 6490**

**Oedolion**
Os credwch fod oedolyn yn cael ei gam-drin, cysylltwch â'r Tîm Diogelu Oedolion ar **029 2233 0888** a gadewch eich manylion i gael galwad yn ôl. Fel arall, e-bostiwch **diogeluoedolion@caerdydd.gov.uk.**

**Tîm Dyletswydd Argyfwng y Tu Allan i Oriau Swyddfa'r Gwasanaethau Cymdeithasol**
Os oes unrhyw bryderon y tu allan i oriau swyddfa ar ôl 5.00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar benwythnosau a Gwyliau Banc yna ffoniwch y Tîm Dyletswydd Argyfwng ar **029 2078 8570**

### Beth fydd yn digwydd os byddaf yn rhoi gwybod am bryder i'r Gwasanaethau Cymdeithasol?

Pan fyddwch yn cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd yr aelod o staff yn cymryd cymaint o fanylion ag sydd eu hangen i weld a oes angen i'r atgyfeiriad fynd drwy'r broses ddiogelu neu sut y gellir helpu'r person a allai gynnwys gwasanaeth arall.

Bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn asesu a oes angen i'r atgyfeiriad fynd drwy'r broses ddiogelu, a bydd yn dilyn polisi a gweithdrefnau cenedlaethol.

Bydd y camau sy'n dilyn yr asesiad yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, ond efallai mai'r person sy'n cael math gwahanol o wasanaeth neu gymorth neu mewn amgylchiadau eithriadol llys yn cymryd camau cyfreithiol. Bydd camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod y person yn cael ei ddiogelu ar unwaith ac yn y dyfodol. Er mwyn cyfrinachedd, mae'n annhebygol iawn y cewch wybod am ganlyniad yr asesiad.

### Beth os ydych yn cael eich camgymryd ac nad oes cam-drin yn digwydd?

Os nad ydych yn siŵr, mae'n well bod wedi trafod eich pryderon gyda rhywun sydd â phrofiad a chyfrifoldeb i wneud penderfyniad gwybodus nag anwybyddu sefyllfa a allai arwain at niwed i rywun sy'n agored i niwed.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Ddiogelu ar wefan y Cyngor.